

Dyddiad cyhoeddi: 15 Ebrill 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Annwyl Gyngorydd Webster,

Rydym ni'n ysgrifennu atoch chi i ymateb i'ch e-bost dyddiedig 25 Mawrth 2021 o'r enw 'Llywodraeth Cymru/TrC wedi torri Arferion Da a'r gyfraith' Anfonwyd yr e-bost hwn at y derbynwyr canlynol: James Price, Paul Orders, James Clemence, Kevin Brennan, Mark Drakeford, Rhian Jones, a Gwasanaethau Democraidd Cyngor Caerdydd. Cafodd nifer o bobl eraill eu cynnwys yn eich e-bost hefyd.

Yng nghorff eich e-bost, fe wnaethoch chi ofyn y cwestiwn canlynol:

"Rydw i'n gofyn y cwestiwn: ydy TrC neu un o asiantaethau cysylltiedig y Llywodraeth wedi cymryd camau i baratoi'r tir ar gyfer y bont arfaethedig?"

Deliwyd â'ch ymholiad o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Gallwn ni gadarnhau nad oes unrhyw waith torri llystyfiant wedi cael ei wneud yn benodol i alluogi adeiladu'r bont. Rydym wedi cynnal rhywfaint o waith ymchwilio tir a chytunwyd ar fynediad gyda pherchnogion Fferm Gelynis a'r tir cyfagos. Mae'r gwaith torri llystyfiant sydd wedi digwydd yn yr ardal hyd yma o fewn y coridor y rheilffordd a chafodd ei gwblhau am resymau diogelwch (fel helpu gyrwyr trenau i weld).

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gvhoeddus".